# Agenda - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Medi 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Catherine Hunt**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddTai@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

**Dogfennau atodol:**

## 2 Papurau i'w nodi

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

Clawr

**2.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol**

(Tudalennau 2 - 3)

**Dogfennau atodol:**

Papur 1

**2.2 Llythyr gan y Cynghorydd Richard John, Cyngor Sir Fynwy - Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol**

(Tudalennau 4 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Papur 2 (Saesneg yn unig)

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd - Diogelwch adeiladau**

(Tudalennau 7 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Papur 3

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.4 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar yr Hawl i Gael Tai Digonol**

(Tudalennau 12 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Papur 4

**2.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Wasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol**

(Tudalennau 18 - 28)

**Dogfennau atodol:**

Papur 5

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09:35)

**Dogfennau atodol:**

## 4 Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol – trafod yr adroddiad drafft

(Tudalennau 29 - 81)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

## 5 Blaenraglen Waith

**Dogfennau atodol:**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**20 Medi 2023 – clawr y papurau i'w nodi**

| Rhif y papur | Mater | Oddi wrth | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Papur 1 | Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | I'w nodi |
| Papur 2 | Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol | Cynghorydd Richard John, Cyngor Sir Fynwy | I'w nodi |
| Papur 3 | Diogelwch Adeiladau | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | I'w nodi |
| Papur 4 | Hawl i Dai Digonol | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |
| Papur 5 | Lyfrgelloedd a Gwasanaethau Hamdden yr Awdurdodau Lleol | Llywodraeth Cymru | I'w nodi |
| | | | |

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Awst 2023

Annwyl John

Yn ystod fy mhresenoldeb yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar gyfer ei Ymchwiliad i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ar 13 Gorffennaf, trafodwyd y gydnabyddiaeth gan y llysoedd y dylai'r cynghorwyr gael 'croen mwy trwchus' wrth ymdrin â sylwadau a wneir gan eraill. Cadarnheais fod hyn wedi codi o gyfraith achosion a chytunais i roi gwybodaeth bellach i chi.

Fel y soniais yn y Pwyllgor, yn ystod fy nghyfarfod yn ddiweddar ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("Yr Ombwdsmon"), dywedodd yr Ombwdsmon fod cydbwysedd i'w daro wrth ystyried lle y tynnir y llinell rhwng 'croen mwy trwchus' a cham-drin.

**Yr achos**

Yn y cyntaf o gyfres o achosion ar y pwnc hwn Calver, R (On the Application Of) v The Adjudication Panel for Wales (Rev 2) [2012] EWHC 1172 (Admin) (03 May 2012), roedd y Llys Gweinyddol o'r farn bod y penderfyniad i geryddu cynghorydd cymuned o Gymru am sylwadau ar ei flog yn ymyrraeth anghymesur â'i hawl i ryddid mynegiant. Mae'r hawl hon yn gofyn am ddehongliad eang o'r hyn sy'n cyfrif fel "ieithwedd wleidyddol" (political speech) – hyd yn oed pan fo'r ieithwedd yn goeglyd ac yn wawdlyd.

Gwnaed y dyfarniad yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon i'r cynghorydd a arweiniodd at atgyfeiriad at bwyllgor safonau'r cyngor sir perthnasol a benderfynodd fod nifer o flogiau'r cynghorydd a oedd yn beirniadu cynghorwyr unigol yn torri Cod Ymddygiad y cyngor cymuned. Apeliodd y cynghorydd at Banel Dyfarnu Cymru ("PDC") ar seiliau a oedd yn cynnwys torri Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i ryddid mynegiant), a wrthodwyd gan PDC. Gofynnodd y cynghorydd wedyn am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn.

Yn yr adolygiad barnwrol, daethpwyd i'r casgliad bod PDC wedi cymryd golwg rhy gul o'r hyn sy'n gyfystyr â 'mynegiant gwleidyddol' (political expression) o dan Erthygl 10. Penderfynodd Mr Ustus Beatson, ymhlith pethau eraill, nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei rhoi ym mhenderfyniad y Panel i'r hyn a ddywedwyd yng nghyfreitheg Strasbwrg am yr angen i wleidyddion gael croen mwy trwchus nag eraill. Yn benodol, cyfeiriodd at yr "amddiffyniad cryfach" (enhanced protection) ar gyfer datganiadau yn y maes gwleidyddol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a'r disgwyliad, os yw gwrthrych datganiadau o'r fath yn wleidyddion sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaeth gyhoeddus, eu bod yn agored i graffu manwl ar eu geiriau a'u gweithredoedd ac y disgwylir iddynt feddu ar groen mwy trwchus a mwy o oddefgarwch nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd.

Dyfarnodd Mr Ustus Beatson fod peidio â chaniatáu beirniadaeth o gynghorwyr ar lefel bersonol yn “disproportional interference of rights enshrined in Article 10 of the European Convention on Human Rights”.

O ganlyniad i'r gyfraith achosion hon, mae gan yr Ombwdsmon, wrth ystyried cwynion, y dasg anodd o wahaniaethu rhwng a yw achos yn cynnwys ymddygiad sy'n gyfystyr â dadl a her wleidyddol gyfreithlon (sydd wedi’u dehongli’n eang gan y Llysoedd), neu a oes camau y tu hwnt i hyn sy'n cyfrif fel ymddygiad annerbyniol, megis bwlio, aflonyddu neu fygythion, ac rydym i gyd yn cytuno bod yr uchod yn annerbyniol. Cydnabu Mr Ustus Beatson nad oedd “llinell bendant” rhwng y gwahanol elfennau hyn.

I grynhoi, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, ac mae *Calver*, ac achosion perthnasol dilynol, yn dangos i ba raddau y mae rhaid i awdurdodau lleol a PDC wneud eu penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Confensiwn.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

CYNGOR monmouthshire COUNTY COUNCIL sir fynwy

John Griffiths MS
Chair
Local Government and Housing Committee
Senedd Cymru
Cardiff
CF99 1SN

Monday 21st August 2023

Dear John,

**Re: Diversity in Local Government**

I have followed your committee's enquiry into diversity in local government with interest and I'm grateful for the opportunity to provide written evidence on our experiences in Monmouthshire.

It is a source of pride that Monmouthshire was the first council in Wales to have a 50:50 gender balance following the 2022 elections and, following a by-election in October 2022, is Wales' first ever female majority council. The two main groups both have 55% female councillors – 12 out of 22 in the Welsh Labour group and 10 out of 18 in my Welsh Conservative group.

I have always had an interest in the politics of representation. In 2008, for my master's dissertation I wrote a critical analysis of the position of women in the Welsh Conservative Party. I believe there's a copy of it somewhere in the depths of the National Library. At that time, the Conservatives had 17 female MPs in the UK and the Welsh Conservatives had never elected a female MP. At the then most recent Assembly election the party had been 98 votes away from being an all-male group for the second term and only 26% of Welsh Conservative councillors were women. It was an interesting time to write about diversity in the party as David Cameron was introducing a number of reforms to broaden the party's appeal. In the years that followed the little progress that was made in Wales was sadly not sustained. 14 years on, just 28% of Welsh Conservative councillors are women.

In May 2021, having served as a county councillor and cabinet member for four years, I was elected Leader of Monmouthshire County Council. At the time, many Welsh councils were still dominated by older white men, with several councils having as few as three women on the entire authority – that's three more than they would've had nearly 2,000 years ago when the Romans introduced the first form of local government in Wales.

*County Councillor Richard John, Leader of the Opposition /Arweinydd yr Wrthblaid*
*Monmouthshire County Council, County Hall, Usk, Monmouthshire NP15 1GA*
*Cyngor Sir Fynwy, Neuadd Sir, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA*
*E-mail/E-bost: richardjohn@monmouthshire.gov.uk*
*Tel/Ffon 01633 644219*

I appointed Monmouthshire's first female Deputy Leader, Sara Jones, herself a champion and role model for women in public life, as part of Monmouthshire's first gender balanced cabinet. Having been a critic of the lack of progress on diversity in my own party and finding myself in a leadership position, I felt determined to try to make progress. At the first full council meeting after my election, I brought forward the following motion and asked opposition leaders for their support:

*This Council:*

- *Recognises that a more representative council is better equipped to reflect the views and experiences of the residents of our county.*
- *Regrets that in Wales only 28% of councillors are women and no local authority has ever achieved a 50:50 gender balance.*
- *Welcomes the improvement in female representation amongst Monmouthshire councillors to 35% in 2017.*
- *Resolves that all four political groups will take steps to help Monmouthshire County Council become the first local authority in Wales to achieve gender parity in 2022.*

I had discussed with the WLGA their template motion for councils to self-define as 'diverse councils' but I wanted to make a clearer commitment that we were going to aim for gender parity. It could be said that 'take steps' was a weak wording, but I had no authority to dictate to political parties what those steps should be and I knew they would vary. Gender quotas or any form of positive discrimination were never a realistic option for my party, but my understanding of the steps taken by Welsh Labour is that they were more prescriptive and ruled that all retirement seats had to be reserved for female candidates. I am not aware of any steps taken by either the Liberal Democrat or Independent groups.

Sara Jones and I had already been headhunting potential candidates for the forthcoming election and while we adopted an informal target of 50% female candidates, we did not know if or how it would be met. This target focussed the minds on a shared goal, although it's fair to say that beyond my group, reaction to our target was more mixed. Some in my own party felt our target was unmeritocratic, that it risked prioritising gender over talent and that we should simply allow 'the cream to float to the top'. I think that had we sacrificed calibre it would have completely undermined the argument for diversity. Each of my colleagues was selected on merit and I now have a very high calibre team, which is better equipped to undertake our roles because of the diversity of gender, age and background.

As Conservative group leader, I had a seat on my local party's candidate approval committee but in a non-voting capacity. Selections were undertaken by local branches in online meetings (as we were still mid-pandemic) or by a county-wide electoral college. Therefore, I and those who supported the goal of 50% female candidates had limited influence over the selection process. So our roles were focussed on headhunting, mentoring, supporting and advising female candidates to give them the best chance of being selected for a winnable seat.

The process brought home to me the additional barriers that women face in seeking elected office. In the early stages, we spent a lot of time meeting potential candidates and explaining what was involved in being a county

*County Councillor Richard John, Leader of the Opposition /Arweinydd yr Wrthblaid*
*Monmouthshire County Council, County Hall, Usk, Monmouthshire NP15 1GA*
*Cyngor Sir Fynwy, Neuadd Sir, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA*
*E-mail/E-bost: richardjohn@monmouthshire.gov.uk*
*Tel/Ffon 01633 644219*

councillor. A number of potential candidates withdrew due to pregnancy, while others had greater considerations to weigh up before committing.

For some of our female candidates the election was a particularly challenging period, as some tended to juggle more family and caring responsibilities. This was particularly difficult in single parent households and we tried to be as supportive as possible.

In the 2022 election, Monmouthshire had more female candidates than anywhere else in Wales as the Conservatives, Labour and the Greens all had 52% female candidates.

For me, the experience has proven that quotas, all-women shortlists and other forms of positive discrimination are not the only way to create greater diversity in local democracy. I believe the steps that we took in Monmouthshire to ensure we better reflect the electorate should be adopted in my own party in other areas and at other tiers of government.

However, the pace of change in Wales over the past 25 years has been far too slow. The longer we take to affect change, the longer council chambers will be doing a disservice to a large proportion of their local populations. While I still believe that positive discrimination can be patronising and can undermine politicians' credibility, I would urge those in positions of influence to act with greater urgency.

I think those in leadership positions in elected groups on councils and elsewhere as well as in political parties need to show greater leadership and get their whole teams focussed on a target or goal. Due to incumbency, for some councils it may take a few election cycles to get close to parity, but even small steps can help create a critical mass that could accelerate progress.

Thank you once again for the opportunity to share some experiences from Monmouthshire and I wish you and your committee members well with your deliberations.

If there's anything I can do to assist the committee, please do not hesitate to contact me. I will continue to follow your discussions with interest.

Yours sincerely,

Richard.

**Richard John**
**Leader of the Welsh Conservative Group**
**Monmouthshire County Council**

*County Councillor Richard John, Leader of the Opposition /Arweinydd yr Wrthblaid*
*Monmouthshire County Council, County Hall, Usk, Monmouthshire NP15 1GA*
*Cyngor Sir Fynwy, Neuadd Sir, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA*
*E-mail/E-bost: richardjohn@monmouthshire.gov.uk*
*Tel/Ffon 01633 644219*

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/287/2023

John Griffiths MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Awst 2023

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr mewn perthynas â phryderon a godwyd gan y Welsh Cladiators. Rwyf i a'm swyddogion wedi ymateb i ohebiaeth a anfonwyd gan Mark Thomas a Rob Nicholls yn codi'r pryderon hyn yn uniongyrchol ar 11 Gorffennaf ac 8 Awst yn y drefn honno. Rwyf wedi trefnu cyfarfod â'r ddau ym mis Hydref i drafod y materion hyn.

Rwy'n falch o gadarnhau fod **pob** datblygwr y disgwylir iddo lofnodi'r contract cyfreithiol rwymol bellach wedi gwneud hynny. Mae hyn yn dangos eu hymrwymiad a'u bwriad i fynd i'r afael â phroblemau diogelwch tân mewn adeiladau y maent wedi'u datblygu dros y 30 mlynedd diwethaf.

Y datblygwyr hyn yw Vistry, Countryside, Persimmon, Taylor Wimpey, Bellway, Barratts, Lovell, Crest Nicholson, McCarthy Stone a Redrow.

Mae'r contract yn nodi amserlenni llym, gan ofyn am ddiweddariadau cyfnodol ar gynlluniau adfer a diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill.

Rwy'n falch o gadarnhau fod yr **holl** gynlluniau adfer wedi'u derbyn, a bod pob datblygwr yn mynd ati i ymgysylltu â ni. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod datblygwyr Celestia (Redrow) ac Altamar (Bellway) wedi ysgrifennu at yr Endid Cyfrifol yn cadarnhau cynnwys yr adeiladau hyn yn y contract gyda chynnig i gwrdd i drafod y camau nesaf.

Yn achos Celestia, rydym wedi cael gwybod bod Redrow wedi gofyn am gopïau o'r arolygon a gomisiynwyd gan yr endid cyfrifol. Mae'n rhaid i'r rhain bennu dyddiadau targed. Rydym hefyd wedi cael gwybod am gyfarfod cyfryngu, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi er mwyn galluogi cynnydd gyda'r datblygiad hwn. Yn yr un modd, ar gyfer Altamar, mae Bellway wedi ein cynghori o'u bwriad i gynnal arolwg PAS 9980, a fydd yn nodi'r gwaith sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risgiau tân sy'n gysylltiedig â'r system Wal Allanol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Credaf yn gryf fod y dull cydweithredol a fabwysiadwyd yma yng Nghymru yn llwyddiannus wrth ymgysylltu â datblygwyr a'u dwyn i gyfrif, gyda nifer o ddatblygwyr eisoes yn ymgymryd â'r gwaith:

- Persimmon ar y safle yn Century Wharf ac Aurora.
- Mae Bellway ar y safle yn Prospect Place ac mae cladin ACM wedi'l dynnu o Quayside Apartments.
- Mae McCarthy Stone wedi adfer yr holl waith diogelwch tân mewn adeiladau yng Mghymru.
- Mae Redrow wedi darparu cyllid ar gyfer gwaith diogelwch tân mewnol yn Celestia.

Fel y gwyddoch, mae adfer problemau diogelwch tân yn dasg gymhleth, ac mae angen nifer o arolygon ac asesiadau i ddeall y problemau sy'n codi a'r dulliau mwyaf ymarferol o ddatrys y problemau hynny, naill ai drwy waith adfer llawn neu gyflwyno mesurau lliniaru addas. Mae'r adeiladau sy'n rhan o gontract y datblygwr ar wahanol gamau, ac nid oes gennyf reswm i gredu eu bod yn ceisio oedi neu gyfyngu ar eu rhwymedigaethau.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw pob nam diogelwch tân yn fai y datblygwyr.  Er y gall y rhai sy'n codi o waith adeiladu gwael neu ddewis anaddas o ddeunyddiau fod oherwydd hynny, gall llawer o ddiffygion eraill o'r fath godi ar ôl i adeilad gael ei gwblhau a'i feddiannu.  Cyfrifoldeb y landlord neu'r asiant rheoli yw diffygion oherwydd cynnal a chadw annigonol neu ddiffygiol, a byddai'n afresymol disgwyl i ddatblygwyr dalu'r gost o'u cywiro.

Disgwylir i ddatblygwyr weithio gyda'r Endid Cyfrifol a sicrhau fod cyfathrebiadau priodol ar waith i roi gwybod i drigolion am eu cynlluniau, gyda chyfrifoldebau hefyd yn cael eu rhoi ar yr Endid Cyfrifol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo.

Dyma eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn delio ag unrhyw amheuaeth o dorri contract mewn modd briodol.  Mae hyn yn cynnwys camau cyfreithiol lle bo hynny'n briodol. Mae adnoddau ar gael i fonitro cynnydd yn y gwaith a sicrhau bod cynnydd priodol.

Sefydlwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Diogelwch Adeiladau i sicrhau bod barn yr holl randdeiliaid allweddol yn llywio ac yn cynghori ar agweddau ar ddiwygio ac adfer diogelwch adeiladau, er mwyn sicrhau bod cynigion cysylltiedig yn cael eu targedu, yn ymarferol ac yn gyraeddadwy. Mae aelodau o'r Welsh Cladiatoriaid yn mynychu'r grŵp hwn i gynrychioli barn holl lesddeiliaid Cymru.

Rwyf hefyd yn annog lesddeiliaid yn rheolaidd i gofrestru ar gyfer y cylchlythyr Diogelwch Adeiladau i gael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd, ac mae gan y tîm gyfeiriad e-bost pwrpasol lle gall lesddeiliaid godi pryderon / ymholiadau i gael ymateb uniongyrchol.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd,
Llywodraeth Cymru

01 Awst 2023

Annwyl Julie,

Diogelwch adeiladau

Atodir yr ohebiaeth gafodd y Pwyllgor gan y Welsh Cladiators yn amlinellu eu pryderon ynghylch gorfodi cysylltiad Llywodraeth Cymru â datblygwyr.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi ymrwymo i wneud gwaith dilynol ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar y materion pwysig hyn, a byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pryderon a amlinellwyd gan y Welsh Cladiators yn eu llythyr.

Gwerthfawrogem gael ymateb ar fyrder fel y gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Welsh Cladiators cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

We welcome correspondence in Welsh or English.

From: **Welsh Cladiators**
Date: Mon, Jul 17, 2023 at 12:39 PM
Subject: Senedd Welsh Housing Committee - Welsh Home Fire Cladding Crisis
To: Local Government and Housing Committee | Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
<SeneddHousing@senedd.wales>

Dear Elected Members

We hope you enjoy a well earned summer recess

We thought it important to bring to your attention that some developers in Wales are in clear breach of the contract they signed with the Welsh Government regarding the remediation of some of our fire defective homes. We have detailed below the key contract clauses that state within 40 days of signature, Participant Developers will provide plans and a timetable for remediation works to the Responsible Entity.

In the case of Celestia (Redrow) and Altamar (Swansea) neither groups of leaseholders have received such plans. We therefore kindly ask that you question Minister Julie James on what enforcement actions she intends to take to ensure developers comply with the agreed terms. We believe the Minister is both naive and misguided in her belief that developers "will do the right thing." Without any enforcement actions or compliance monitoring by the WG, there is every likelihood some developers will seek to delay any works and limit their liabilities towards remediating our fire defective homes. It's clear from the Minister's recent responses in the Senedd that she has made little provision to fund and resource an effective enforcement regime.

Such is the fragmented WG approach to Welsh victims and their failure to bring us together, we are not in a position to advise if other developments are suffering similar failings.

Under the terms of the WG' Developers Contract:

Clause 8.1 requires a Participant Developer (PD) "*as soon as reasonably practicable* ***and in any event not later than 40 Business Days***" after the date of the Contract and the identification of the Buildings Requiring Works to provide certain information as set out in Clause 8.1 (C).

Under Clause 8.1 (C) (ii) the information to be supplied includes "*the next steps [PD] intends to take to meet its obligations … and where Clause 6.1(i) and/or 6.1(ii) is applicable,* ***the target dates for carrying out and completing the Works****.*"

Under clause 8.1 performance of its obligations by PD under Clause 8.1 (C) is subject to the words "*unless the Welsh Ministers in their absolute discretion direct otherwise*".

The 40 Business Day period expired on 13th June.

We would welcome the opportunity to appear before your committee again to share our continued difficulties with both the developers and Welsh Government

Regards

Mark Thomas - Robert Nicholls on behalf of Welsh Cladiators

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Hawl i Dai Digonol**

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a phawb a dreuliodd amser i ddarparu tystiolaeth yn seiliedig ar eu profiad a'u harbenigedd, er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor ar hawl i dai digonol.

Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi 'Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer yr hawl i dai digonol gan gynnwys rhenti teg a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy i'r rhai ar incwm lleol.'

**Nodir yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i phroses Ymgynghoriad Papur Gwyrdd, ystyried y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd i ni mewn ymateb i'n hymchwiliad ar yr Hawl i Gael Tai Digonol.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fel rhan o'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd. Mae nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hefyd yn gynrychiolwyr ar ein Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid, ac mae eu barn a'u tystiolaeth wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Papur Gwyrdd. Yn ogystal, mae llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor wedi nodi eu bod yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd cyn iddo gau ar 15 Medi.

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn fel rhan o'i phrosesau Papur Gwyrdd a Gwyn**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion a nodwyd yn yr adroddiad a bydd yn ymateb iddynt fel rhan o ystyriaethau cyffredinol tystiolaeth yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Bydd tystiolaeth y Papur Gwyrdd, ynghyd â gwaith adroddiad y

Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Tai ar dai digonol yn llywio datblygiad opsiynau i'w nodi ac ymgynghori arnynt yn y Papur Gwyn dilynol.

**Goblygiadau ariannol: Dim.**

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod grwpiau anabledd a chynrychiolwyr pobl hŷn yn cael eu cynrychioli ar grŵp cynghori rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid fel rhan o ddatblygiad y gwaith hwn, gan gynnwys adolygu ac ehangu aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Randdeiliaid fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi estyn gwahoddiad i ymuno â'r Grŵp Cynghori ar Randdeiliaid i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau capasiti nid ydynt yn gallu ymuno â'r grŵp ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i edrych ar gynrychiolaeth o grwpiau trydydd sector eraill, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth briodol o farn pobl anabl a phobl hŷn. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau ymgynghori ar-lein wedi'u targedu, er enghraifft gweithdai gyda Tai Pawb a Gwasanaeth Cynghori Cyfranogol Tenantiaid (TPAS), er mwyn sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau.

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi ein bod wedi comisiynu Beaufort Research ym mis Mehefin, drwy eu Harolwg Omnibus, i gyfweld tenantiaid sy'n rhentu eiddo yng Nghymru i ddeall yn well faterion fforddiadwyedd ac addasrwydd ar draws gwahanol ranbarthau. Mae ymatebion wedi'u dadansoddi yn seiliedig ar radd gymdeithasol, oedran, rhyw, ethnigrwydd a/neu a oes gan denant salwch, problem iechyd neu anabledd sy’n eu cyfyngu.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu werthuso gomisiynu pellach ar effaith y gyfraith bresennol ar dai a ph'un a yw'r cyfreithiau'n cael eu gorfodi'n effeithiol ac a yw hawliau pobl yn cael eu hawlio.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyhoeddwyd gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn 2018. Mae'r ymchwil hon a gwaith dilynol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd arbenigol wedi llywio ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio cyfraith tai i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Bydd Papur Gwyn sy'n nodi cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaethol yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Mae'r gwerthusiad yn parhau ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn haf 2025.

**Goblygiadau ariannol: Dim – mae cost y gwerthusiad parhaus eisoes yn y gyllideb.**

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei Phapurau Gwyrdd a Gwyn, gasglu safbwyntiau a rhoi ystyriaeth fanwl i sut y dylid diffinio tai digonol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig. Dylai hyn gynnwys ystyried y diffiniad a ddarperir yn y Bil drafft a gynigir gan yr ymgyrch Cefnogi'r Bil.**

**Ymateb: Derbyn**

Gan fod y Papur Gwyrdd yn alwad am dystiolaeth, mae'n rhoi cyfle i bawb roi eu barn ar sut y gellid diffinio tai digonol mewn cyd-destun Cymreig, a beth fyddai safon sylfaenol o ddigonolrwydd. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori, gan gynnwys barn grwpiau fel ymgyrch Cefnogi’r Bil, wrth ystyried a datblygu'r Papur Gwyn sydd ar ddod.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o sut y bydd yr 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd y mae'n bwriadu eu creu yn cyfrannu at ddiwallu'r angen cyffredinol am dai yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys asesiad o sut y bydd y mathau o gartrefi a ddarperir yn mynd i'r afael â meysydd angen penodol, megis eiddo un ystafell wely.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae tai cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, a dyna pam rydym wedi nodi'r ymrwymiad heriol i ddarparu 20,000 o gartrefi ar gyfer rhent cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth hon. Mae ein hamcangyfrifon canolog o anghenion tai ychwanegol yng Nghymru yn dangos, rhwng 2019/20 a 2023/24, bod angen 7,400 o gartrefi ychwanegol bob blwyddyn. Mae tua 52% (3,900) o'r angen amcangyfrifedig ar gyfer tai marchnad a thua 48% ar gyfer tai fforddiadwy (3,500). Mae ein hymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol i'w rhentu yn mynd y tu hwnt i amcangyfrifon yr anghenion tai fforddiadwy hyn ac rydym wedi bod yn glir ein bod yn credu ei bod yn iawn ei fod yn gwneud hynny. Mae cael cartref cynnes,

fforddiadwy o ansawdd da yn hanfodol i'n lles. I gefnogi'r targed o 20,000 o gartrefi, rydym wedi dyrannu'r lefelau uchaf erioed o gyllid i'r Grant Tai Cymdeithasol, sef y mecanwaith cyllido allweddol ar gyfer darparu tai cymdeithasol. Mae awdurdodau lleol yn dyrannu ac yn blaenoriaethu Grant Tai Cymdeithasol i gynlluniau yn eu hardaloedd yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion tai.

O ran anghenion penodol mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu gofynion a blaenoriaethau tai lleol ar gyfer eu hardaloedd, ac am gynllunio darpariaeth er mwyn diwallu'r angen hwn orau. Mae anghenion tai yn amrywio ledled Cymru, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gynnal adolygiad cyfnodol o anghenion tai, a gynhelir drwy Asesiadau o'r Farchnad Tai Lleol (LHMAs), ac mae'n briodol bod yr asesiad hwn yn parhau ar sail awdurdod lleol. Diweddarwyd y broses a'r canllawiau LHMA yn 2022 ac mae'n cynnwys asesiad o anghenion tai fforddiadwy yn ôl maint yr eiddo. Mae LHMA yn hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol. Ers 2022, mae pob Awdurdod Lleol wedi paratoi "Prosbectws" sy'n rhoi crynodeb o'r angen am dai yn ei ardal ac yn nodi ei flaenoriaethau tai strategol. Mae'r Prosbectws yn esbonio'r math o ddarpariaeth, a maint yr eiddo, y mae angen i'r awdurdod ei ddarparu gyda Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (SHG). Nod y Prosbectws yw galluogi'r math cywir o ddatblygiad tai fforddiadwy i gael ei ddarparu yn y mannau cywir.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddod o hyd i ateb ymarferol i'r oedi a achosir i ddatblygiadau tai oherwydd y targedau ar ffosffadau mewn afonydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Ar 20 Mawrth, cyhoeddodd y Prif Weinidog Ddatganiad Ysgrifenedig a'r Cynllun gweithredu i leddfu'r pwysau ar ddalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy, sy'n nodi camau gweithredu clir, amserlenni a chyfrifoldebau i fynd i'r afael â'r mater amlochrog hwn. Yn ddiweddarach eleni bwriedir cynnal Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd arall i sicrhau cynnydd wrth weithredu atebion cynaliadwy i wella ansawdd dŵr yn ein hafonydd a gweithredu y *'Cynllun Gweithredu i Leddfu'r Pwysau ar Dalgylchoedd Afon ACA i gefnogi'r gwaith o ddarparu Tai Fforddiadwy.'*

**Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hystyried a'u cynnwys fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithredu**

**Argymhelliad 8 Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru edrych a allai fod rôl i hwyluswyr tai mewn ardaloedd trefol er mwyn casglu gwybodaeth i ddeall anghenion tai'r cymunedau hynny'n well.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae hwyluswyr tai gwledig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddeall anghenion cymunedau gwledig, a rôl tai wrth gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy aneddiadau gwledig llai, yn ogystal â darparu tai fforddiadwy yng nghyd-destun heriau penodol ardaloedd gwledig. Fel rhan o'u swyddogaeth tai strategol, disgwylir i awdurdodau lleol gynnal asesiadau priodol i sicrhau eu bod yn deall anghenion tai ardaloedd trefol drwy'r broses Asesu Marchnad Tai Lleol. Mae Canol trefi: datganiad sefyllfa [HTML] | LLYW.CYMRU hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i adfywio canol trefi, gan gynnwys galluogi datblygiadau tai mewn lleoliadau priodol yng nghanol trefi a'r cyffiniau, gan ddilyn egwyddorion creu lleoedd.

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei phrosesau ymgynghori Papur Gwyrdd a Gwyn, archwilio sut y gallai dull dau gam o gyflwyno'r hawl i dai digonol i gyfraith Cymru weithio'n ymarferol. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymarferoldeb ymgorffori anuniongyrchol ac yna ymgorffori uniongyrchol, a Yr hawl i gael tai digonol 7 fyddai'n rhoi amser i systemau priodol gael eu rhoi ar waith wrth yrru'r broses yn ei blaen.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae ymgynghoriad y Papur Gwyrdd yn gofyn am dystiolaeth ar sicrhau llwybr i Ddigonolrwydd Tai a sut orau y gellir cyflawni hyn yng Nghymru. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor a gwahanol ddulliau o ymgorffori yn cael eu hystyried ac yn llywio datblygiad y Papur Gwyn sydd ar ddod.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

**Dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddadansoddi'r ymatebion a gaiff i'r Ymgynghoriad Papur Gwyrdd, roi ystyriaeth bellach i'r rhinweddau o gyflwyno arolwg tai blynyddol.**

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu achos busnes ar gyfer arolwg blynyddol posibl ar dai a chyflwr tai. Rhagwelir y bydd yr achos busnes ar gael erbyn diwedd y flwyddyn.

**Goblygiadau ariannol: Bydd unrhyw oblygiadau ariannol posibl yn cael eu cynnwys fel rhan o ddatblygiad yr achos busnes.**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/2087/23

John Griffiths MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
SeneddHousing@senedd.wales

31 Awst 2023

Annwyl John,

**ADRODDIAD PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI Y SENEDD AR WASANAETHAU HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD AWDURDODAU LLEOL**

Croesewir adroddiad y Pwyllgor ar lyfrgelloedd awdurdodau lleol a gwasanaethau hamdden gan fod llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau lleol ac maen nhw'n allweddol, mewn gwahanol ffyrdd, i iechyd a llesiant ein cenedl. Fodd bynnag, daw'r adroddiad ar adeg o heriau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â phwysau cyffredinol ar wariant cyhoeddus yn dilyn mwy na degawd o gyni, costau ynni uwch, a'r gwaith adfer yn sgil effaith pandemig Covid. Nid yw gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd wedi osgoi gostyngiadau i'r gyllideb gan fod yn rhaid i awdurdodau lleol geirio taro cydbwysedd rhwng anghenion gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel addysg a gofal cymdeithasol, a darparu gwasanaethau eraill, fel hamdden a llyfrgelloedd.

Mae Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru, sy'n cynnwys gwasanaethau llyfrgelloedd lleol, wrthi'n cael ei drafftio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Plaid Cymru ac mae'r ymatebion i'r argymhellion yn cyfeirio ati. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor yn ychwanegiad gwerthfawr at y gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r strategaeth. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor nodi, ar hyn o bryd, nad yw cynnwys y strategaeth ddrafft wedi'i gymeradwyo na'i brofi eto gyda rhanddeiliaid.

Yn gywir,

Dawn Bowden AS/MS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism

Rebecca Evans AS/MS
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd am lyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yr awdurdodau lleol**

**Argymhelliad 1**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio a ddylai gryfhau Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddiogelu llyfrgelloedd rhag cau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd 'cynhwysfawr ac effeithlon' i unrhyw un sydd am ddefnyddio llyfrgell. Mae cyfrifoldeb ar Weinidog perthnasol Cymru i 'oruchwylio' ac i hyrwyddo gwaith i wella gwasanaethau llyfrgelloedd. Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n cael ei gyflawni drwy gyfres o Safonau manwl ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru nad ydynt yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau lleol i ddylunio a darparu gwasanaeth llyfrgelloedd sy'n diwallu anghenion y gymuned.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried mwy ar yr argymhelliad hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

**Argymhelliad 2**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gwaith ar fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fel mater o frys a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r fframwaith.

Ymateb: Derbyn

Mae'r gwaith ar 7fed Fframwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar fin dechrau, a bydd yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith hwnnw.

**Argymhelliad 3**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd wrth ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru ac yn egluro sut y bydd y strategaeth yn plethu â'r fframwaith safonau llyfrgell. Dylai hefyd egluro trefniadau ar gyfer cydweithio a symleiddio cyfrifoldebau Gweinidogol mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgell a diwylliant.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn cydnabod pa mor bwysig yw cyflawni'r cyfrifoldebau statudol sy'n bodoli yn y sector diwylliant, a pha mor bwysig yw safonau proffesiynol er mwyn cynnal ansawdd y gwasanaethau. Mae'r amserlenni ar gyfer datblygu'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft a 7fed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn debyg ac mae cyfle felly i sicrhau bod y rôl sydd

gan y Fframwaith Safonau i'w chwarae o ran cefnogi'n llyfrgelloedd yn cael ei hadlewyrchu yn y Strategaeth Ddiwylliant.

Mater i'r Prif Weinidog yw rhannu cyfrifoldebau gweinidogol.

**Argymhelliad 4**

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru. Dylai rannu ei chanfyddiadau gyda'r Pwyllgor.

Ymateb: Gwrthod

Nid sicrhau bod gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru yw diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi diben cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith – y saith nod llesiant – i'r llywodraeth genedlaethol, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus penodedig eraill yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus a enwir ddarparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'r Ddeddf yn nodi ym mha ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hynny weithio, a chydweithio, i wella llesiant Cymru. Nid yw'r Ddeddf yn disodli pwerau na dyletswyddau presennol yr awdurdodau cyhoeddus perthnasol (a elwir yn 'gyrff cyhoeddus' yn y Ddeddf), ac nid yw'n drech na nhw ychwaith, ond mae'n gosod fframwaith ar gyfer eu prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru yn cynnwys canlyniadau a ddymunir ar gyfer Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynol – ac rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yn gallu gwneud cyfraniad at iechyd a lles ein cenedl ac mai nhw, yn aml, yw curiad calon ein cymunedau.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip wedi ymrwymo i ystyried gwerthuso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan wneud hynny wrth fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu. Mae hyd a lled y gwerthusiad hwnnw'n dal i gael eu pennu ac mae'n debygol y bydd yn cynnwys adolygiad systematig o dystiolaeth ac asesiad o'r effaith gymdeithasol. O ystyried natur eang y Ddeddf a'r ffaith ei bod yn cwmpasu llywodraeth, cyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynghorau tref a chymuned, bydd angen i'r gwerthusiad gynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bydd y gwerthusiad hefyd yn ystyried tystiolaeth a ddarperir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y ddyletswydd i fonitro, y pŵer i adolygu, a'r adroddiad blynyddol ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol), gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (adroddiad am y ddyletswydd i archwilio a chanlyniadau archwiliadau), ac ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2020-21, sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut mae'r Ddeddf yn gweithio.

**Argymhelliad 5**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o’r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC i ystyried gwelliannau ar gyfer dyfodol gwasanaethau hamdden.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod yr argymhelliad hwn gyda phartneriaid allweddol, yn enwedig grŵp Prif Swyddogion Hamdden Cymru (CLOW) i weld a oes unrhyw asesiadau o wasanaethau hamdden wedi'u cynnal eisoes, o ran lefel y ddarpariaeth, y math o ddarpariaeth, a chyflwr y cyfleusterau. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati wedyn i gysylltu ac i drafod â'r partneriaid allweddol er mwyn penderfynu a oes bylchau yn yr asesiad hwnnw a bydd yn ystyried a oes angen adolygiad ehangach er mwyn asesu'r cyfleoedd i wella gwasanaethau hamdden.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, sy’n cysylltu’n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o’r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y mae gwasanaethau hamdden cyhoeddus yn ei chwarae o ran cefnogi iechyd a lles y genedl. Mae llawer o bobl yn eu defnyddio er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu neu weithgareddau o dan eu harweiniad eu hunain sy'n eu helpu i fyw bywydau iachach. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi meithrin cysylltiadau cryf rhwng yr agendâu iechyd a hamdden drwy weithgareddau megis y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a'r Cynllun Hamdden Egnïol i Bobl 60 a Hŷn sydd, yn eu tro, yn rhan o'n Strategaeth a’n Cynlluniau Cyflenwi ar gyfer Pwysau Iach Cymru. Drwy wneud hynny, mae’n cydnabod bod ein cyfleusterau hamdden cyhoeddus, ynghyd â strategaethau eraill fel teithio llesol. yn rhan bwysig o'r seilwaith sy'n helpu pobl i fod yn fwy egnïol yn gorfforol.

Rydym hefyd yn cydnabod y rôl y mae gwasanaethau hamdden yn ei chwarae wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol. Sail rhagnodi cymdeithasol yw cydnabod yr hyn sy'n bwysig i unigolyn a sut i gefnogi ei anghenion o ran lles. Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n cwblhau’r gwaith ar yr Ymrwymiad a wnaeth yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, a nod y fframwaith hwnnw fydd cyflwyno’r un safonau ledled Cymru ar gyfer meysydd fel gweithluoedd ac asedau cymunedol. Mae asedau Hamdden Cyhoeddus yn rhan

bwysig o'r seilwaith sy'n cefnogi'r gweithgareddau y gall rhagnodi cymdeithasol gyfeirio unigolion atynt.

O ran yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fynd ati'n barhaus ar y cyd â phartneriaid lleol i adolygu gwaith partneriaeth rhanbarthol, disgwylir i'r adroddiad fod yn barod yn hydref 2023. Bydd yn edrych yn benodol ar y rôl sydd gan bartneriaethau, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i'w chwarae o ran cysoni eu gwaith er mwyn gwella llesiant.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi eu cynlluniau llesiant lleol ac mae helpu cymunedau i fyw bywydau iachach ac atal afiechyd yn y dyfodol yn agwedd allweddol ar y cynlluniau hynny.

**Argymhelliad 7**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i ddarparu cymorth, arweiniad a rhannu arferion gorau sy'n ymwneud â gwahanol fodelau o ddarparu gwasanaethau.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CLlLC eisoes ar ystod o feysydd polisi er mwyn rhannu arferion da wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn 2021-22, lansiwyd y Rhaglen Wella er mwyn helpu'r sector ei hun i arwain gwelliannau ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £800,000 y flwyddyn i CLlLC ar gyfer y rhaglen wella hon sy'n cael ei harwain gan y sector, ac fe'i hategir drwy herio cymheiriaid a thrwy'r gwaith a wneir gan yr awdurdodau eu hunain i roi cefnogaeth a chymorth i'w gilydd.

Ochr yn ochr â'r cynigion mewn ymateb i argymhelliad 5, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys y math o ddarpariaeth yn yr asesiad o wasanaethau hamdden.

**Argymhelliad 8**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid llywodraeth leol, yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi a chyhoeddi data penodol i Gymru ar yr enillion gwerth cymdeithasol ar fuddsoddiad wrth ddarparu gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd.

Ymateb: Derbyn.

Mae buddsoddi mewn ymchwil yn thema yn y Strategaeth Ddiwylliant ddrafft. Mae mwy o awydd gan y Sector Llyfrgelloedd a'r sectorau diwylliannol eraill i gasglu tystiolaeth am werth cymdeithasol a'r adenillion a geir o fuddsoddi. O ran llyfrgelloedd, bydd y mater hwn yn cael ei ystyried wrth inni fynd ati i ddatblygu'r 7fed Fframwaith.

Un agwedd ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yw bod llyfrgelloedd yn cael eu hannog i gyflwyno astudiaethau achos/datganiadau effaith i ddangos arferion da. Bydd swyddogion yr Is-adran Ddiwylliant yn edrych ar sut y gellir defnyddio'r rhain i rannu arferion da ar draws y sector. Byddant yn ystyried cynnal digwyddiad er mwyn rhannu arferion da ar draws Cymru.

**Argymhelliad 9**

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio’r opsiynau ar gyfer sefydlu Tasglu Llyfrgelloedd i hyrwyddo gwerth llyfrgelloedd a’r cyfraniad y maent yn ei wneud i’w cymunedau a manteision cymdeithasol ehangach.

Ymateb: Gwrthod

Ar hyn o bryd, Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru sy’n hyrwyddo llyfrgelloedd cyhoeddus, drwy'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Digidol Cenedlaethol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sydd â Chynllun Marchnata yn rhan o'i gylch gwaith, a hefyd drwy waith swyddogion yn yr Is-adran Ddiwylliant. Mae ymgyrchoedd hyrwyddo'n cael eu cynnal drwy sianeli Llyfrgell Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ei gwefan ac yn eu plith y mae enghreifftiau o ymgysylltu â defnyddwyr. Mae swyddogion yr Is-adran Ddiwylliant yn gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth i hyrwyddo’r gwerth sydd i lyfrgelloedd cyhoeddus o ran cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol e.e. gyda chydweithwyr ym maes iechyd i hyrwyddo'r gwasanaethau darllen er lles; gyda chymunedau a'r Tîm Trechu Tlodi i helpu i nodi'r cymorth y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei roi o ran darparu mannau cynnes a chyfleoedd i bobl ddefnyddio’r rhyngrwyd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw adnodd ychwanegol i gefnogi Tasglu Llyfrgelloedd, ac rydym yn teimlo y byddai hynny’n dyblygu gwaith sy’n cael ei wneud eisoes.

**Argymhelliad 10**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, gyda phartneriaid llywodraeth leol, yn monitro ac yn gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cydleoli yng Nghymru hyd yma ac yn rhannu eu canfyddiadau ag awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

O ran gwasanaethau llyfrgelloedd, gellid defnyddio'r data a gesglir ar gyfer ffurflenni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i asesu pa mor effeithiol yw cydleoli drwy gymharu’r data a gasglwyd cyn cydleoli gwasanaethau a’r data a gasglwyd wedyn. Fodd bynnag, byddai’n rhaid wrth ymchwil ychwanegol cyn y gellid priodoli unrhyw newidiadau yn y gwasanaethau i'r adleoli. Pan fo cydleoli’n cael ei ariannu drwy gyllid y Grant Cyfalaf Trawsnewid, mae dangosyddion perfformiad yn un o ofynion y cyllid hwnnw. Byddai angen i’r awdurdodau lleol gasglu data ychwanegol i werthuso unrhyw arbedion effeithlonrwydd a wneir drwy gydleoli. Pe byddid yn ystyried cynnal rhagor o ymchwil, gallai fod yn fuddiol cysylltu’r gwaith hwnnw â'r hyn sy'n ofynnol yn

argymhelliad 7, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon. Mae yna hefyd gysylltiadau rhwng y themâu.

O ran gwasanaethau hamdden, yn ystod y trafodaethau y bwriedir eu cynnal gyda Phrif Swyddogion Hamdden Cymru (CLOW) (Rec 5), byddwn yn edrych ar ba mor effeithlon yw'r enghreifftiau presennol o gydleoli ac yn ystyried cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau eraill yr ALlau, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

**Argymhelliad 11**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol drwy CLlLC i sicrhau bod trafnidiaeth, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol, yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau ar gydleoli gwasanaethau.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda CLlLC a grwpiau trafnidiaeth gymunedol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gydleoli gwasanaethau, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Er enghraifft, rydym wedi cynnwys a rhoi rhan i CLlLC wrth inni fynd ati i ddatblygu canllawiau ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Maen nhw, yn eu tro, yn gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol yr Awdurdodau Lleol fynd ati ar y cyd i ddatblygu atebion trafnidiaeth ar gyfer eu cymunedau. Er mwyn cydgysylltu gwasanaethau trafnidiaeth â lleoliadau lle darperir gwasanaethau, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y Cynllun Trafnidiaeth hwnnw'n cyd-fynd â'r 'Cynllun Datblygu Strategol' ar ddefnydd tir ar gyfer yr un rhanbarthau.

Mae trafnidiaeth gymunedol yn rhan bwysig o'n system drafnidiaeth yng Nghymru, ac mae'n helpu pobl agored i niwed i fanteisio ar wasanaethau hanfodol. Byddwn, drwy Trafnidiaeth Cymru, yn gweithio gyda'n partneriaid Trafnidiaeth Gymunedol i edrych ar y ffyrdd gorau o helpu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hanfodol hwn a'r rheini sy'n rhoi o'u hamser i'w redeg.

Gwyddom fod darparu trafnidiaeth leol a chymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig at ein hymrwymiad strategol i'w gwneud yn haws i bobl fanteisio ar wasanaethau.

**Argymhelliad 12**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dyrannu £3.5 miliwn mewn cyllid canlyniadol i byllau nofio, yn enwedig y rhai a allai fod yn anhyfyw heb gymorth ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru'r Pwyllgor pan fydd penderfyniad ynghylch dyrannu'r £3.5 miliwn ychwanegol wedi'i wneud.

Ymateb: Gwrthod

Gallwn gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfanswm o £3.54 miliwn o gyllid canlyniadol yn 2023-24 o ganlyniad i'r mesur hwn, sef £1.153 miliwn o gyllid refeniw a £2.307 miliwn o gyllid cyfalaf. Nid ydym yn disgwyl unrhyw gyllid

canlyniadol ar gyfer y mesur hwn yn 2024-25. Nid ydym wedi cael yr arian oddi wrth Drysorlys EF eto, ond disgwylir iddo gyrraedd yn ystod proses Prif Amcangyfrifon 2023-24, sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Un o egwyddorion pwysig datganoli yw nad yw cyllid canlyniadol yn cael ei glustnodi at ddibenion tebyg yn y llywodraethau datganoledig. Wrth i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau cyllido yn unol ag amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru, maent yn asesu ac yn ystyried ymhle y caiff y cyllid yr effaith fwyaf, maent yn nodi'r pwysau sy’n eu hwynebu mewn amryfal feysydd, ac yn mynd ati i  drafod cyflogau a lliniaru'r argyfwng costau byw sydd ohoni.

Mae cyllid i gefnogi gwasanaethau’r awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad Llywodraeth Leol. Gwnaethom gytuno ar fuddsoddiad ychwanegol sylweddol i lywodraeth leol ar gyfer 2023-24 a fydd yn helpu’r awdurdodau lleol i barhau i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar eu cymunedau. Yn 2023-24, bydd yr awdurdodau lleol yn cael £5.5 biliwn o gyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig oddi wrth Lywodraeth Cymru i’w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hynny’n gyfystyr â chynnydd o 7.9% neu £403 miliwn ar sail tebyg am debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Nid oes unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 6.5%. Serch hynny, yng nghyd-destun y lefelau uchel iawn o chwyddiant sy'n effeithio ar y DU, mae sefyllfa ariannol heriol yn wynebu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd.

Roedd ein cyllideb flynyddol ar gyfer 2023-24, a gymeradwywyd gan y Senedd ar 7 Mawrth, yn darparu £16 miliwn o gyllid cyfalaf i Chwaraeon Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd yn helpu'r sector i uwchraddio cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys cyfleusterau pyllau nofio, ac i roi mesurau arbed ynni ar waith.

**<u>Argymhelliad 13</u>**

Rydym yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi’i dargedu i’r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy’n wynebu’r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i’r argyfwng uniongyrchol.

<u>Ymateb: Gwrthod</u>

A hithau’n wynebu sefyllfa hynod heriol, nid yw’n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth ariannol ychwanegol yn 2023-24.

Fel y dywedasom yn ein hymateb ffurfiol i adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd, “Costau Cynyddol – Effaith ar Ddiwylliant a Chwaraeon", mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysau eithriadol o ran costau cyfleustodau a chostau byw y mae chwyddiant yn eu rhoi ar gyrff hyd braich ac ar sefydliadau yn y sectorau lleol. Er mwyn cynorthwyo gyda'r pwysau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu £3.75 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; Amgueddfa Cymru; y sector celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, y sector chwaraeon drwy

Chwaraeon Cymru; yr amgueddfeydd annibynnol a’r llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru; Cyngor Llyfrau Cymru; a'r diwydiannau creadigol annibynnol yng Nghymru.

Byddai amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan raglen y Grant Cyfalaf Trawsnewid i ymgymryd â gwaith cyfalaf sy'n helpu sefydliadau i barhau’n gynaliadwy. Mae Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid i'r rheini sydd am sicrhau bod eu clybiau'n fwy cynaliadwy. Gallent wneud hynny drwy wella cyfleusterau, a gallent sicrhau cynaliadwyedd yn yr hirdymor drwy wella sgiliau gwirfoddolwyr a thrwy, er enghraifft, gymryd camau i gyrraedd pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**Argymhelliad 14**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru’r Pwyllgor ar ba gymorth ariannol ychwanegol y bydd yn ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i ddelio â’r argyfyngau ynni a chostau byw presennol.

Ymateb: Gwrthod

A hithau’n wynebu sefyllfa hynod heriol, nid yw’n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth ariannol ychwanegol yn 2023-24.

Yn 2023-24, bydd yr awdurdodau lleol yn cael £5.5 biliwn o gyllid refeniw craidd ac ardrethi annomestig oddi wrth Lywodraeth Cymru i'w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hynny’n gyfystyr â chynnydd o 7.9% neu £403 miliwn ar sail tebyg am debyg, o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol. Nid oes unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 6.5%.

**Argymhelliad 15**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diweddaru’r Pwyllgor ar gynnydd i ddatblygu strategaeth i annog ysgolion cynradd i ddarparu gwersi nofio am ddim, a sut y mae’n gweithio gyda darparwyr hamdden ar y strategaeth hon.

Ymateb: Gwrthod

Mae'n rhaid i bob ysgol ystyried y canllawiau statudol yn y Cwricwlwm i Gymru, ac maent yn darparu bod dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, gan gynnwys gweithgareddau yn y dŵr. Maent yn darparu ar gyfer nofio, sy'n debygol o fod yn weithgarwch priodol ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr. Yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf, ein nod yw helpu i sicrhau bod ysgolion yn glir am y disgwyliad hwn ac i godi ymwybyddiaeth yn y Cwricwlwm i Gymru am broffil nofio a diogelwch yn dŵr.

Rydym wedi ymrwymo i annog ysgolion i helpu dysgwyr i nofio, ac i ddefnyddio pyllau nofio wrth wneud hynny. Mae swyddogion yn gweithio gyda Nofio Cymru i edrych ar ffyrdd eraill o helpu ysgolion a’r awdurdodau lleol gyda'u darpariaeth nofio.

Gall cost nofio, gan gynnwys trafnidiaeth, fod yn gryn bwysau ar ysgolion. Yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw, mae'n bwysig bod ysgolion yn gallu ymrwymo cyllid i weithgareddau sy'n cefnogi anghenion eu dysgwyr ac ar adegau, efallai na fydd gan ysgolion unrhyw ddewis ond trosglwyddo rhywfaint o'r gost hon i’r disgyblion.

Er ein bod yn derbyn ac yn cytuno'n llwyr gyda bwriad yr argymhelliad i annog rhagor o nofio a mwy o ddefnydd o byllau nofio, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol y byddai'r argymhelliad yn ei olygu i ysgolion o dan yr amgylchiadau ariannol anodd presennol.

**Argymhelliad 16**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gall godi ymwybyddiaeth o’r cymorth i ddatgarboneiddio cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd.

Ymateb: Derbyn

Sefydlwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn 2018 i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn alluogwr allweddol sy’n rhoi cymorth technegol ac ariannol i'r sector cyhoeddus wireddu’r cyd-uchelgais o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.

Dyfarnwyd contract newydd yn 2023 i gonsortiwm sy’n cael ei arwain gan yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Partneriaethau lleol sy’n arwain ar yr agweddau ar y gwasanaeth sy’n ymwneud ag ymgysylltu strategol. Cytunwyd ar gynllun cyflenwi gwasanaethau newydd yn ddiweddar.

Mae swyddogion yn gweithio gyda chontractwyr y Gwasanaeth Ynni a CLILC i godi ymwybyddiaeth a datblygu gweithgareddau a fydd yn helpu cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd i ddatgarboneiddio.

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn pwysleisio pa mor bwysig yw cydgyfrifoldeb mewn perthynas â’r argyfwng hinsawdd. Mae'r Is-adran Ddiwylliant wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i’r posibilrwydd o gynnig cymorth i ddatgarboneiddio ar draws y sectorau diwylliannol ac mae swyddogion wrthi'n casglu astudiaethau achos am yr arferion cyfredol er mwyn llywio'r gwaith hwn. Bydd y gallu i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn yn amodol ar yr adolygiad o'r gyllideb sy’n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, a bydd yn ddibynnol hefyd ar gael rhywfaint o’r cyllid refeniw sydd wedi’i neilltuo er mwyn helpu i roi'r strategaeth ddiwylliant ddrafft ar waith.

**Argymhelliad 17**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cefnogi datgarboneiddio ac adnewyddu cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd ledled Cymru. Dylai hyn gynnwys atebion tymor byr, yn ogystal â strategaeth hirdymor, i helpu

awdurdodau lleol a darparwyr cyflenwi i wella effeithlonrwydd ynni eu cyfleusterau ar frys.

Ymateb: Derbyn

Mae’r awdurdodau lleol wedi bod yn cydweithio i baratoi a chytuno ar ymrwymiadau uchelgeisiol ar draws meysydd caffael, trafnidiaeth, adeiladau a defnydd tir, ac mae’r ymrwymiadau hynny wrthi’n cael eu gwireddu. Rhaid i ddatgarboneiddio ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd fod yn rhan annatod o bob agwedd ar wneud penderfyniadau a chyllid, yn hytrach na chael eu hystyried yn gyfrifoldebau ychwanegol, ar wahân. Serch hynny, rydym yn darparu cyfalaf o hyd at £20 miliwn bob blwyddyn i helpu’r awdurdodau lleol i ddatgarboneiddio'u hystadau. Gall y cynllun hwnnw gynnwys canolfannau hamdden os yw’r awdurdodau’n dymuno hynny.

Yn ogystal, fel y crybwyllir uchod, roedd ein cyllideb flynyddol ar gyfer 2023-24, a gymeradwywyd gan y Senedd ar 7 Mawrth, yn darparu £16 miliwn o gyllid cyfalaf i Chwaraeon Cymru dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd yn helpu'r sector i uwchraddio cyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys cyfleusterau pyllau nofio, ac i gyflwyno mesurau arbed ynni.

Mae datblygu cynaliadwy yn un o’r meini prawf sy’n cael blaenoriaeth o dan y Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trawsnewid ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Mae hynny’n cyd-fynd â’r amcanion Llesiant yn y Rhaglen Lywodraethu a'r nod o gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant ddrafft yn cydnabod pa mor bwysig yw datblygu strategaeth buddsoddi cyfalaf hirdymor ar gyfer diwylliant er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid yn y dyfodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon